OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2011 Rhif 659 (Cy.97)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Coleg Caerdydd a'r Fro (Corffori) 2011

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn sefydlu corfforaeth addysg bellach a elwir Coleg Caerdydd a'r Fro o dan adran 16(1)(a) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ("y Ddeddf") at y diben o redeg y sefydliad addysgol sydd â'r un enw. Mae'r Gorchymyn hefyd yn darparu ar gyfer pennu 1 Awst 2011 yn ddyddiad gweithredu at ddibenion Rhan 1 o'r Ddeddf, sef y dyddiad y bydd Coleg Caerdydd a'r Fro yn ymgymryd â rhedeg, o hynny ymlaen, y sefydliad addysgol o'r un enw.

Mae drafft a chrynodeb o'r Gorchymyn hwn wedi eu cyhoeddi yn unol ag adran 51(3) o'r Ddeddf a Rheoliadau Corfforaethau Addysg Bellach (Cyhoeddi Gorchmynion Drafft) (Cymru) 2007.

# 2011 No. 659 (W.97)

# EDUCATION, WALES

## The Cardiff and Vale College (Incorporation) Order 2011

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order establishes a further education corporation called "Cardiff and Vale College" under section 16(1)(a) of the Further and Higher Education Act 1992 ("the Act") for the purpose of conducting the educational institution of the same name. The Order also provides for the appointment of 1 August 2011 as the operative date for the purposes of Part 1 of the Act, being the date from which Cardiff and Vale College is to conduct the educational institution of the same name.

A draft and summary of this Order have been published in accordance with section 51(3) of the Act and the Further Education Corporations (Publication of Draft Orders) (Wales) Regulations 2007.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 659 (Cy.97)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Coleg Caerdydd a'r Fro (Corffori) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *7 Mawrth 2011* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *8 Mawrth 2011* |
| *Yn dod i rym* | *8 Ebrill 2011* |

Gwneir y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 16(1)(a) ac 17 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**1**) sy'n arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru(**2**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi drafft a chrynodeb o'r Gorchymyn hwn yn unol ag adran 51(3)(**3**) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a Rheoliadau Corfforaethau Addysg Bellach (Cyhoeddi Gorchmynion Drafft) (Cymru) 2007(**4**).

(**1**) 1992 p.13; diwygiwyd adran 16 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 gan adran 140(3) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion ac Atodlen 31 iddi (p.31); a chan adran 111(1) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p.21). Diwygiwyd adran 17 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 gan baragraff 7 o Atodlen 3 i Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p.30).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 16(1)(a) a 17 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ar ôl hynny, i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) Diwygiwyd adran 51(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p.13) gan erthygl 9(1) o Orchymyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Cyngor) 2005 (O.S. 2005/3238) (Cy.243)) a chan baragraffau 13 a 21 o Atodlen 1 iddo; gan adran 111(2)(a) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (c.21); a chan erthygl 2(1) o Orchymyn Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru a Lloegr) 2010 (O.S. 2010/1080) a pharagraffau 18 a 21(c) a (d) o Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 51(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ar ôl hynny, i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**4**) O.S. 2007/854 (Cy.78), a ddiwygiwyd gan O.S. 2010/1142 (Cy.101).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2011 No. 659 (W.97)

# EDUCATION, WALES

## The Cardiff and Vale College (Incorporation) Order 2011

| | |
|---|---|
| *Made* | *7 March 2011* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *8 March 2011* |
| *Coming into force* | *8 April 2011* |

This Order is made in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 16(1)(a) and 17 of the Further and Higher Education Act 1992(**1**) and now exercisable by the Welsh Ministers(**2**).

The Welsh Ministers have published a draft and summary of this Order in accordance with section 51(3)(**3**) of the Further and Higher Education Act 1992 and the Further Education Corporations (Publication of Draft Orders) (Wales) Regulations 2007(**4**).

(**1**) 1992 c.13; section 16 of the Further and Higher Education Act 1992 was amended by section 140(3) of and Schedule 31 to the Schools Standards and Framework Act 1998 (c.31); and by section 111(1) of the Learning and Skills Act 2000 (c.21). Section 17 of the Further and Higher Education Act 1992 was amended by paragraph 7 of Schedule 3 to the Teaching and Higher Education Act 1998 (c.30).

(**2**) The functions of the Secretary of State under sections 16(1)(a) and 17 of the Further and Higher Education Act 1992 were transferred to the National Assembly for Wales by virtue of article 2 of and Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). The functions of the National Assembly for Wales were subsequently transferred to the Welsh Ministers by virtue of paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

(**3**) Section 51(3) of the Further and Higher Education Act 1992 (c.13) was amended by article 9(1) of and paragraphs 13 and 21 of Schedule 1 to the National Council for Education and Training for Wales (Transfer of Functions to the National Assembly for Wales and Abolition) Order 2005 (S.I. 2005/3238 (W.243)); by section 111(2)(a) of the Learning and Skills Act 2000 (c.21); and by article 2(1) of and paragraphs 18 and 21(c) and (d) of Schedule 1 to the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009 (Consequential Amendments) (England and Wales) Order 2010 (S.I. 2010/1080). The functions of the Secretary of State under section 51(3) of the Further and Higher Education Act 1992 were transferred to the National Assembly for Wales by virtue of article 2 of and Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). The functions of the National Assembly for Wales were subsequently transferred to the Welsh Ministers by virtue of paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

(**4**) S.I. 2007/854 (W.78) amended by S.I. 2010/1142 (W.101).

Yn unol â hynny, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Accordingly, the Welsh Ministers make the following Order:

**Enwi a chychwyn**

**1**. Teitl y Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Coleg Caerdydd a'r Fro (Corffori) 2011 a daw i rym ar 8 Ebrill 2011.

**Title and commencement**

**1**. The title of this Order is the Cardiff and Vale College (Incorporation) Order 2011 and it comes into force on 8 April 2011.

**Corfforaeth Newydd**

**2**. Ar 8 Ebrill 2011 sefydlir corff corfforaethol o'r enw Coleg Caerdydd a'r Fro, at ddibenion sefydlu a rhedeg, o'r dyddiad gweithredu ymlaen, sefydliad addysgol newydd o'r un enw.

**New Corporation**

**2**. On 8 April 2011 a body corporate called Cardiff and Vale College is to be established, for the purposes of establishing and conducting from the operative date a new educational institution of the same name.

**Dyddiad gweithredu**

**3**. Y dyddiad gweithredu a bennwyd mewn perthynas â Choleg Caerdydd a'r Fro yw 1 Awst 2011, a bydd y gorfforaeth yn rhedeg y sefydliad addysgol Coleg Caerdydd a'r Fro o'r dyddiad hwnnw ymlaen.

**Operative date**

**3**. The operative date appointed in relation to Cardiff and Vale College is 1 August 2011, and the corporation is to conduct the educational institution of Cardiff and Vale College from that date.

*Leighton Andrews*

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, un o Weinidogion Cymru

Minister of Children, Education and Lifelong Learning, one of the Welsh Ministers

7 Mawrth 2011

7 March 2011

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2011

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2011

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

## 2011 Rhif 659 (Cy.97)

## ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Coleg Caerdydd a'r Fro (Corffori) 2011

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

## 2011 No. 659 (W.97)

## EDUCATION, WALES

The Cardiff and Vale College (Incorporation) Order 2011

£4.00

W896/03/11 ON